



O DAN EMBARGO TAN 09.00AM DDYDD MAWRTH 26 HYDREF 2021

ENWEBIADAU HEARTS FOR THE ARTS AR AGOR AR GYFER 2022: ***GWOBRAU I DDATHLU ARWYR CELFYDDYDOL LLEOL***

Mae enwebiadau bellach ar agor ar gyfer y 6^{ed} Gwobrau Hearts for the Arts blynyddol, a fydd yn dathlu eiriolwyr celfyddydau awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau diwylliannol a phrosiectau cymunedol creadigol.

Mae'r gwobrau'n fenter flynyddol gan Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau, sy'n eirioli dros ragor o fuddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau i wella bywydau pobl ledled y DU.

Chwaraeodd creadigrwydd a'r celfyddydau rôl hanfodol yn ystod y pandemig. Bydd Gwobrau Hearts for the Arts 2022 yn parhau i ddathlu'r prosiectau creadigol a'r bobl sydd wedi cysylltu cymunedau ac annog mynegiant artistig fel rhan o adfer yn sgil y pandemig.

O weithgarwch creadigol sydd wedi dod â chymunedau ynghyd eto, i arloesedd digidol sydd wedi creu cysylltiadau newydd, i wyliau celfyddydol, i ddefnyddiau dinesig o adeiladau diwylliannol lleol a sefydliadau celfyddydol, anogir enwebiadau gan ystod eang o brosiectau ledled y DU sydd wedi digwydd rhwng 21 Tachwedd 2020 a 20 Tachwedd 2021.

Cyflwynir y gwobrau mewn partneriaeth â [Community Leisure UK](#), [Creative Lives](#), y [Gymdeithas Llywodraeth Leol](#), [Thrive](#), [UK Theatre](#), a [Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#).

Dewisir yr enillwyr gan banel beirniadu o ffigurau blaenllaw y celfyddydau ochr yn ochr â'r actor a chyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr NCA, Samuel West. Roedd beirniaid y llynedd yn cynnwys Adrian Lester CBE, Paul Hartnoll, Mariella Frostrup, Le Gateau Chocolat, Francesca Martinez, Helen Czerski a Petra Roberts o Gyngor Hackney, a fu'n enillwyr gwobr 2020 am eu gŵyl Cenedlaethau Windrush. Cyhoeddir y beirniaid eleni ym mis Ionawr.

O 26 Hydref tan i'r enwebiadau gau ar 26 Tachwedd, gall aelodau'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau, awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau diwylliannol ymweld â [thudalen we Gwobrau Hearts for the Arts](#) i gyflwyno enwebiadau mewn tri chategori:

- **Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau – Cynghorydd**
- **Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau – Gweithiwr Awdurdod Lleol neu Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol**
- **Prosiect Celfyddydau Gorau**

Mae'r gwobrau hefyd yn agored i ymddiriedolaethau diwylliannol sy'n gweithio ar ran awdurdodau lleol. Mae Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau yn awyddus i gydnabod y rhai sydd wedi defnyddio statws ymddiriedolaeth i wella darpariaeth y celfyddydau a chreu buddion i bobl leol. Felly, mae'r categorïau Hyrwyddwyr Celfyddydau Gorau yn caniatáu enwebiadau ar gyfer unrhyw weithiwr awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth ddiwylliannol.

Cyhoeddir yr enillwyr ar Ddydd Sant Ffolant 2022 a bydd y gwobrau'n cael eu cyflwyno mewn cydweithrediad â chynhadledd Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon y Gymdeithas Llywodraeth Leol a gaiff ei chynnal ym mis Mawrth 2022, i'w cadeirio gan Gadeirydd y CLIL, Y Cynghorydd Gerald Vernon-Jackson.

Dyweddodd yr actor, cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr NCA, Samuel West:

“Mewn blwyddyn sydd wedi gweld galar a blinder cyfnod digynsail, ond hefyd y cynulliad hapus o deulu a ffrindiau a'r gallu i symud yn fwy rhydd, mae creadigrwydd wedi profi ei hun yn rym sy'n gallu adfywio byd ôl-COVID.

Mae Hearts for the Arts bob amser wedi ymwneud â chydabod arwyr creadigol Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau Diwylliannol, sy'n gweithio er gwaethaf anfantais ariannol (a gyda llai o arian) i hyrwyddo a darparu prosiectau a gwasanaethau celfyddydol i'w cymunedau. Eleni mae'r arwyr celfyddydau lleol hynny wedi gweithio'n galetach nag erioed i annog adferiad a chysylltiad. Mae'r gwobrau hyn ar eu cyfer nhw.”

Dyweddodd Cadeirydd y CLIL, Y Cynghorydd Gerald Vernon Jackson:

“Rydym yn falch iawn o gefnogi'r gwobrau Hearts for the Arts blynyddol i ddathlu arwyr awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau diwylliannol heb eu cydnabod. Mae'r gwobrau hyn yn dangos rhai o'r ffyrdd gorau a blaengar y mae cynghorau'n dod â chymunedau at ei gilydd o dan amgylchiadau anodd, gan ddefnyddio gweithgareddau diwylliannol i fynd i'r afael â heriau difrifol, a chyfoethogi bywydau eu trigolion.

“Mae gan y celfyddydau rôl hanfodol i'w chwarae o ran cefnogi ein hadferiad cenedlaethol yn sgil y pandemig COVID-19 ac edrychwn ymlaen at glywed rhai o'r straeon ysbrydoledig o arweinyddiaeth bersonol ac effaith leol sy'n dangos pwysigrwydd y cyfraniad hwn at gymunedau lleol.”

[Enillwyr Gwobrau Hearts for the Arts 2021 oedd:](#) Arts E-Live gan Gyngor Ardal Mole Valley; N17 gan Gyngor Haringey mewn partneriaeth ag Academi Harris Tottenham, Kick it Out, Threads Radio, Theatr RoughHouse a'r dramodydd Dougie Blaxland; Citiau Chwarae Creu a Dysgu gan Wasanaeth Celfyddydau Wandsworth a chonsortium o sefydliadau creadigol Wandsworth; Andy Dawson o Inspire Arts a Chynghorydd Bwrdeistref Rochdale, Janet Emsley.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i wneud enwebiad ar gyfer Gwobrau Hearts for the Arts, ewch i:

<https://forthearts.org.uk/campaigns/hearts-for-the-arts/>

Mae Hearts for the Arts yn ymgyrch a gyflwynir gan:

National Campaign
FOR THE ARTS

In Partnership with:



Cyswllt Gwasg: Arabella Neville-Rolfe, Arabella@anrpr.co.uk / 07815025364

Nodiadau i olygyddion:

Mae [Hearts for the Arts](#) yn fenter Ymgyrch Genedlaethol dros y Celfyddydau, a gyflwynir mewn partneriaeth â UK Theatre, Culture Counts, y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a Thrive.

Mae [Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau](#) (NCA) yn elusen ac yn sefydliad ymgyrchu annibynnol, a redir gan fwrdd o ymddiriedolwyr gwirfoddol. Maent yn ymgyrchu dros fwy o fuddsoddiad yn y celfyddydau, i wella bywydau pawb; ac yn hyrwyddo'r rhai sy'n gwneud i hynny ddigwydd.
forthearts.org.uk

